S4C

**ARAITH TAC**
08.03.2012

**Cyflwyniad**

Rhyw fis a hanner sydd ers i mi gychwyn yn fy swydd newydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw dwi wedi cael cyfle i gwrdd â nifer ohonoch ac wedi cael calondid mawr o'r trafodaethau, y cyfnewid syniadau ac o dderbyn adborth gonest ac adeiladol wrth bawb. A dyna fel ddylai fod...cyd drafod, cydweithio a chyfathrebu!

Dwi'n sicr o un peth nid fi sydd a'r syniadau gorau i gyd nac ychwaith y syniadau gwaetha ac felly dwi'n mawr obeithio y byddwch yn cario mlaen i gynnig cyngor, awgrymiadau ac adborth ymhell i'r dyfodol!

Fe gefais i'r fraint o fod yn rhan o'r tîm bach oedd yn S4C ar y cychwyn - y tîm lansiodd y Sianel 30 mlynedd yn ôl. Roeddwn i yno i weld Owen Edwards yn cerdded lawr y star yng Nghlos Soffia yn gwahodd y gwylwyr i S4C am y tro cyntaf ar ein noson agoriadol fis Tachwedd 1982.

Penderfynodd grŵp bach o'r staff aros yn ôl ar ôl gwaith, rhai yn y gegin ac eraill yn eu swyddfeydd, yn gweld hanes yn cael ei greu....Na'i fyth anghofio'r noson honno...Na'i fyth anghofio chwaith y paratoadau yn arwain i fyny'r noson... gorfod clirio modfedd o ddwst o'r ddesg pob bore cyn cychwyn gwaith, Myfanwy y cyfrifiadur "mainframe" enfawr yn ei holl ogoniant yn disgwyl staff ac ymwelwyr wrth iddynt fentro i'r llawr cynta ....Roedd 'na lot o newid bryd hynny ond hefyd cyffro a theimlad o fod ar drothwy digwyddiad mawr!

A dros y blynyddoedd mae'r newid wedi parhau

S4/C

**Newid**

Pan gadawes i S4C 16 blynedd yn ôl roedd y dderbynfa rhywbeth yn debyg i glogwyn serth gyda llechen fawr yn eich wynebu wrth gerdded i mewn. Pan gerddais i mewn i'r cyntedd am y tro cyntaf fel Prif Weithredwr ychydig wythnosau yn ôl... y peth cynta' sylwais i oedd bod y llechen wedi mynd a bod cynllun syml iawn wedi cymryd ei lle. Hefyd, mi oedd yr holl swyddfeydd bron i gyd wedi diflannu a phawb yn gweithio mewn cynllun gwaith agored.

Yn amlwg mi oedd pethau wedi newid ac nid yn y dderbynfa'n unig.

Y cwestiwn dwi wedi cael fwyaf aml ers dod 'nôl i Gymru yw 'Pam dychwelyd i S4C a hynny mewn cyfnod anodd yn hanes y Sianel?'

Mae'r ateb yn un digon syml. Cefais fy mherswadio i dreio am y swydd ar y funud olaf; er hynny bu'r broses gyfweld yn un digon hir ac heriol.

Yn y pen draw, dim ond dau gwestiwn fu'n rhaid i mi ofyn i fi'n hun - a ddaw'r swydd yma fyny eto yn ystod fy ngyrfa waith ac a fydd hi'n fwy o her yn y dyfodol nac yw hi nawr?

Gair arall am 'her' yw 'cyfle' yn sicr yn fy marn i ta beth. Gellir edrych ar sefyllfa S4C heddiw fel gwydr hanner gwag neu hanner llawn. Llawer gwell gen i edrych ar ein sefyllfa fel gwydr hanner llawn.

Pam dwi'n dweud hyn?

1. Yn gyntaf, er bod 'na doriad o 24% yn ein cyllideb dros gyfnod o bedair blynedd, neu 32% mewn termau real, sawl sefydliad neu gwmni masnachol all ddweud yn yr hinsawdd economaidd bresennol bod gyda nhw'r sicrwydd o wybod isafswm maint eu cyllideb am y bum mlynedd nesaf? Dim lot. Yn hyn o beth rydym yn hynod o ffodus ac yn gallu cynllunio ymhell ymlaen llaw.

2. Yn ail, dwi'n edrych ymlaen yn fawr i gydweithio'n agored gyda'r sector annibynnol lle mae gymaint o dalent o flaen a thu ôl i'r camera.

3. Yn drydydd, dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at gydweithio gyda'r BBC - un o frandiau mwyaf llwyddiannus y byd - fel rhan o'r bartneriaeth newydd fydd yn bodoli o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mae hwn yn gyfle, cyn belled ag y bo gwir annibyniaeth golygyddol a gweithredol S4C yn bodoli.

4. Yn bedwaredd, mae'n gyfnod cyffrous ym myd darlledu, technoleg newydd a'r cyfryngau digidol ac mae hyn yn cynnig cyfleoedd newydd i ni....ac o blethu'r talent a'r syniadau sydd gennym a'r awydd i sicrhau llwyddiant....mae 'na lot o gyfleoedd!

Mae un o ddywediadau JFK yn dod i gof – "Change is the law of life. And those who look only to the past or present are certain to miss the future."...a dwi na neb arall fan hyn yn bwriadu colli'r dyfodol!

**Y Gynulleidfa**

Sylfaen unrhyw fusnes yw'r cwsmer...heb gwsmer does 'na ddim busnes, Sylfaen S4C yw'r gynulleidfa, heb gynulleidfa does 'na ddim gwasanaeth.

Anghenion ein cynulleidfa yw'r ffactor bwysicaf yn ein holl weithgareddau. Athroniaeth orau busnes yw rhoi'r cwsmer wrth galon y busnes a dyna pam bod 'Calon Cenedl' fel ymgyrch marchnata yn holl bwysig. Rhaid i ni wybod beth mae'r gwylwyr a'n defnyddwyr eisiau wrth i ni symud ymlaen, a chael adborth ar raglenni, ond rhaid hefyd sicrhau ein bod yn cyfathrebu â nhw yn glir a'u harwain at y cynnwys drwy ddulliau marchnata clyfar.

Yn y broses o gwrdd â'u dymuniadau a'u hanghenion mae- ymchwil a marchnata trylwyr – yn hanfodol.

Er i mi ddweud bod ni'n ffodus bod gennym sicrwydd ariannol am y bum mlynedd nesaf, mae'r toriadau yn ein cyllideb yn galw am feiddgarwch i gymryd golwg fanwl ar ein strwythurau a'r costau cyfatebol. Dwi wedi datgan droeon ers dod i'r swydd fy awydd a'm bwriad i symleiddio popeth, i leihau gwaith papur a biwrocratiaeth ffwdanus a diangen. Dw i am fod yn agored yn y ffordd i ni'n cydweithio â'n gilydd o fewn S4C a gyda'n partneriaid. Mae angen symud i ffwrdd o'r hen agwedd o 'Fo a Fi' a 'Chi a Ni' tuag at bartneriaethau creadigol iachach a mwy effeithlon.

Felly i fi, edrych mlaen sy'n bwysig...ac edrych mlaen "gyda'n gilydd".......yn ddarlledwyr, yn gyflenwyr, cynulleidfa, rhanddeiliaid a staff - mae gan bawb eu rhan a hawl i fynegi barn yn y busnes cyffrous i ni ynddo.

**Y Drefn Gomisiynu Newydd**

Un o'r newidiadau allweddol dwi wedi ei wneud ers cychwyn yn y swydd yw ail-drefnu ein system gomisiynu. Rydym wedi cyhoeddi eisoes y bydd y strwythur gomisiynu newydd yn dod o dan arweiniad Cyfarwyddwr Cynnwys a phedwar Comisiynydd Cynnwys. Mi fydd y cyfweliadau ar gyfer y swyddi comisiynu yn cael eu cynnal yn fuan a'r bwriad yw cyhoeddi'r tîm newydd cyn diwedd y mis hwn. (Mawrth).

Y bwriad, yw symud i ffwrdd o drefn goruchwylio golygyddol gyda phenderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud gan bwyllgor comisiynu at un sy'n canolbwyntio ar drafod syniadau a thalent cyn comisiynu gyda phenderfyniadau yn cael ei gwneud gan unigolion.

O dan y drefn newydd y comisiynwyr fydd yn gwneud y penderfyniadau comisiynu o dan arolygiaeth y Cyfarwyddwr Cynnwys.  Bydd y comisiynwyr yn cydweithio'n agos gyda'r cynhyrchwyr yn y broses o drafod a meithrin syniadau cyn comisiynu er mwyn sicrhau mai'r syniadau gorau sydd yn cyrraedd y sgrin.  Bydd y comisiynwyr yn comisiynu cynnwys ar gyfer rhaglenni a holl gynnwys aml-lwyfan S4C yn unol â strategaethau rhaglenni ac aml-lwyfan S4C.  Dwi'n awyddus bod comisiynwyr allan yn y maes gymaint â phosib, yn trin a thrafod syniadau, yn mynd i theatrau a chyngherddau, yn mynd i weld a chlywed talent yn perfformio'n fyw.  Dwi ddim am eu gweld nhw tu ôl i ddesgiau yn fwy na sydd wir angen.

Y prif nod wrth wneud hyn yw symleiddio'r broses bresennol, gwneud penderfyniadau yn fwy cyflym a newid y pwyslais o oruchwylio i drafod a meithrin syniadau.  Nawr gall hyn gymryd amser i newid ond pwysig nodi mai dyna'r bwriad.

Bydd y strwythur yn un sydd yn hybu partneriaethau a chyd-weithio ar draws y sector greadigol yng Nghymru a thu hwnt.  Mae hyn yn gosod sialensiau newydd ac yn creu cyfleoedd yn y modd o gomisiynu ein cynnwys.  Bydd y drefn newydd yn trio sicrhau ein bod yn gweithio yn y modd mwyaf effeithiol, creadigol ac uchelgeisiol i wireddu ein hamcanion.

**Ffenestri**

Mae'r drefn bresennol o gomisiynu drwy gynnal **ffenestri comisiynu** wedi bod o wasanaeth i'r Sianel yn ystod cyfnod o newid.
Ond rhaid gofyn y cwestiwn - Ai dyma'r ffordd orau ar gyfer y dyfodol?  Ar ôl ystyried y mater yn ddwys, dwi'n sicr yn fy marn bod ffordd well i gael.  Gyda golwg ar greu mwy o sefydlogrwydd felly dwi'n bwriadu dileu'r  drefn yma a symud at un sydd a mwy o bwyslais ar fod yn "ddi-dor" – comisiynu parhaol mewn geiriau eraill.
Mi fyddwn yn symud i ddileu Ffenestr Gomisiynu 3 oedd fod ddigwydd yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill a Ffenestr Gomisiynu 4 oedd fod i ddigwydd yn ystod y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst.

Yn eu lle, mi fyddwn yn anelu at ymrwymo 80% (wyth deg y cant) o gyllideb 2013 trwy gomisiynu ddi dor i fyny at ddechrau Gorffennaf eleni. Mi fydd y gweddill o 20% (ugain y cant) ar gael o Awst eleni (2012) tan Awst y flwyddyn nesaf (2013) - 15% (pymtheg y cant) ar gyfer comisiynu parhaol ac i fyny at 5% (pump y cant) wedi'i glustnodi ar gyfer talent newydd a chwmnïau llai. Syniadau sy'n gyrru penderfyniadau comisiynu a rhaid pwysleisio'r angen i drafod syniadau gyda'r comisiynydd perthnasol cyn ei gyflwyno yn ffurfiol. Mewn realiti rhagwelwn y bydd y mwyafrif o'r 20% di dor yn cael ei gomisiynu cyn diwedd Rhagfyr 2012 /Ionawr 2013. Mae'n bwysig nodi y bydd y cwmnïau llai hefyd yn gallu cynnig am gomisiynu eraill o'r holl gyllideb.

Mi fyddwn yn anelu at ymrwymo 80% (wyth deg y cant) o gyllideb 2014 drwy gomisiynu parhaol erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Mi fydd yr 20% (ugain y cant) sy'n weddill ar gael o Fai 2013 tan Mai 2014 - 15% (pymtheg y cant) ar gyfer comisiynu parhaol ac i fyny at 5% (pump y cant) eto ar gyfer talent newydd a chwmnïau llai. Bydd y 5% yn "Gronfa Egnio" gyda'r bwriad o gynnal datblygiad parhaol o gynnyrch newydd a chwmnïau bach.

Bydd y gronfa yma ar gael i gwmnïau sydd wedi derbyn llai na £200,000 o drosiant ar draws y 2 flynedd diwetha a llai na 3 o staff llawn amser. Mi fydd angen hyblygrwydd a synnwyr cyffredin gyda hwn i gyd ac i'w wneud i weithio.

Erbyn diwedd chwarter cyntaf 2013 bydd gan y rhan fwyaf o'r cwmnïau sicrwydd o'u patrymau gwaith am ddwy flynedd. Mae'n bosib hefyd y bydd rhai cytundebau yn hirach na hynny. Dylai hyn gynnig mwy o sefydlogrwydd a'r gallu i gynllunio'n well, gwneud y gorau o unrhyw arbedion a chynnig cytundebau i'r dalent angenrheidiol o flaen a thu ôl y sgrin. Byddwn yn anelu at ddilyn yr un patrwm ar gyfer y blynyddoedd canlynol.
Er mwyn i hyn weithio, a dwi'n gwybod fy mod yn ail ddweud fy hun, ond mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn hyblyg. Yn fewnol mae'n bwysig ein bod ni'n fwy parod i ystyried comisiynu cyfresi hirach yn hytrach na rhaglenni sengl a rhaglenni 60 munud yn hytrach na 30 munud. Ond bydd angen i chithau hefyd fel cynhyrchwyr i fod yn hyblyg gyda ni.

**Cyllideb Cynnwys**

Bydd y Cyfarwyddwr Cynnwys a'r unigolion a benodir yn ddolen gyswllt allweddol gyda'r sector gynhyrchu a BBC Cymru ac yn hybu cydweithio ar draws y sector greadigol er mwyn creu cynnwys bydd yn feiddgar ac uchelgeisiol. Gofid llawer ohonoch, wrth gwrs, a'n gofid ninnau hefyd yw'r angen i gynhyrchu mwy am lai. Mae'r swm sydd ar gael ar gyfer cynnwys eleni - £67m - fel dywedais i, yn lwmpyn o arian. Ond wedi dweud hynny mae'n dipyn llai na fu ar gael ar gyfer rhaglenni yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hynny wedi golygu ac yn golygu penderfyniadau anodd i chi fel cynhyrchwyr ac i ninnau yn S4C.

D'yw gorfod colli staff byth yn broses hawdd. Yn S4C, dwy flynedd yn ôl roedd 'na 164 staff, heddiw mae 'na 135 staff. Mae 31 o staff - 20% - wedi'n gadael ers yr Hydref heb gynnwys y newidiadau comisiynu ac mae'r Cadeirydd, Huw Jones, wedi datgan ein bwriad i leihau costau rhedeg S4C i adlewyrchu ac i gyfateb i'r toriadau ariannol o fewn y gyllideb rhaglenni. Erbyn 2014 bydd costau rhedeg S4C wedi gostwng 19.28%.

Dwi eisoes wedi cychwyn y broses o wneud hynny. Mae'r tîm rheoli presennol yn edrych ar yr holl gostau ar sail be sydd yn greiddiol ac yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gallu cynnal gwasanaeth o'r ansawdd ucha' posib. Mae pob aelod o'r tîm rheoli yn gyfrifol am adolygu costau unigol mewn meysydd penodol ar draws y gwasanaeth. Wrth gwrs does dim modd torri rhai costau fel costau darlledu sefydlog dros nos ond mae 'na agweddau o'n gwariant gorbenion lle gellir gwneud arbedion, a hyn yw ein ffocws ochr yn ochr gydag edrych ar y defnydd gorau o adnoddau drwy gydweithredu gyda'r BBC.

Oes, mae angen symud yn gyflym i greu mwy o sefydlogrwydd yn y diwydiant ond hefyd mae angen arbed arian. Ein bwriad yw bod mor agored â phosib gyda'r sector, er lles pawb - chi fel cynhyrchwyr a ninnau fel darlledwyr.

Mi fydd angen ystyried sawl peth gyda'r newidiadau uchod gan gynnwys:

- Symleiddio'r broses weinyddol gan gynnwys y wybodaeth fydd angen i'r cynhyrchwyr ei ddarparu e.e. y briff golygyddol.

- Yr angen i adolygu'r Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach i adlewyrchu'r newid yn y broses gomisiynu. Hefyd, diweddaru'r Cod a'r Telerau'n gyffredinol. Er enghraifft, ystyried hawliau ar-lein yn sgil argymhellion Fforwm Cyfryngau Newydd S4C; edrych ar y ffyrdd gorau i S4C a'i chynhyrchwyr weld gwir fuddion o ymelwa ar raglenni, ac ystyried y cyfnod dal-yn-ôl fel rhan o hyn; a diwygio'r canllawiau gosod cynnyrch er mwyn creu cyfleoedd a'r cymhelliant i gynyddu cyllideb ein rhaglenni.

- Y tariffau yr ydym yn barod i'w talu am gynyrchiadau a chostau cynhyrchu. Dwi'n ystyried comisiynu adroddiad i edrych ar y cyfraddau sy'n cael ei talu i weithwyr ac am ddefnydd adnoddau yn y sector ac hefyd ail edrych ar dariffau.

- Dwi hefyd yn awyddus i annog cwmnïau i chwilio am gyfleoedd cyd-gynhyrchu, yn enwedig ym meysydd animeiddio a phlant; cyfresi ffeithiol; ffilmiau a cherddoriaeth glasurol. Drwy ddatblygu partneriaethau gyda dosbarthwyr, cyllidwyr a darlledwyr tu hwnt i Gymru, gobeithiaf y gall cwmnïau ddenu cyllid ychwanegol i greu cynnyrch o safon uchel gydag apêl ryngwladol a'r cyfle i ymelwa'n fasnachol drwy werthiannau tramor neu nwyddau plant.

Mae cyd-gynhyrchiadau yn anodd ac nid ydynt yn arbed arian nac at ddant y gynulleidfa ym mhob achos OND dyw hyn ddim yn meddwl y dylwn eu di-ystyrru..mae gweithio mewn partneriaeth greadigol gyda chwmnïau tramor yn gallu denu syniadau newydd cyffrous a gogwydd gwahanol i'r fwydlen. Byddwn yn ystyried ffurf o ymrwymo i ddarpar cyd-gynhyrchiad ar ffurf llythyr o fwriad, bydd yn gosod allan penawde unrhyw dermau mor gynnar yn y broses ag sydd bosib, er mwyn rhoi mwy o gyfle i gynhyrchydd i gael trafodaeth gall gydag unrhyw ddarpar bartner.

Mae gan S4C Masnachol gronfa gyd-gynhyrchu o £1 miliwn y flwyddyn, sy'n ychwanegol i'r gyllideb cynnwys, a hoffwn annog cwmnïau i ystyried posibiliadau cyd-gynhyrchu ac i ymgeisio am arian ychwanegol o'r gronfa hon.

**Tendro**

Mi fydd y newidiadau i’r drefn gomisiynu yn golygu ein bod yn bwriadu ail edrych ar y broses dendro.

Dydi hyn ddim yn gyfystyr a dileu’r broses dendro. Ond mae’n rhaid i ni ffeindio ffordd o gael ein harwain gan “Gystadleuaeth Greadigol” yn hytrach na phroses. Yn hytrach na thoreth o waith papur a llenwi bocsys, rhaid i ni alluogi cwmnïau cynhyrchu i gyfeirio adnoddau, amser ac arian prin i’r sgrin yn hytrach nac i broses sy’n or-ddibynnol ar dendro. Mae tendro hefyd yn faich mawr ar amser a staff S4C, a bydd yn anodd cynnal y fath broses gyda gostyngiad staff yn S4C ac yn allanol.

Mae’n bwysig nodi bod yr egwyddor o "gystadleuaeth greadigol", gwerth ariannol ac atebolrwydd yn graidd i unrhyw broses newydd ond d’yw hyn ddim yn gyfystyr â chyhoeddi tendrau ar gyfer pob comisiwn a roddwyd allan i dendr fel yn y gorffennol. Mi fydd yn rhaid i ni ffeindio ffordd arall o sicrhau gwerth ariannol ac efallai bod mwy o archwilio cyfrifon yn un ffordd o wneud hyn.

Mae’r BBC a sawl darlledwr cyhoeddus byd-eang yn cyhoeddi tendrau ar gyfer comisiynau lle mae’r darlledwr yn unig yn berchen ar yr hawliau. Maen nhw’n dibynnu ar allu a phrofiad comisiynwyr i sicrhau cynnwys mae’r gynulleidfa yn dymuno ei weld ar sgrin ac am gwerth ariannol.
Enghreifftiau o gyfresi a gwasanaethau sydd yn mynd allan i dendr gyda’r BBC yw Snooker a’r Tywydd.

Fy nymuniad felly yw symleiddio'r broses, cyfyngu ar y cyfresi sy'n cael eu tendro, ac edrych at unioni ein polisi tendro yn agosach at yr hyn y mae’r BBC a darlledwyr eraill yn ei wneud. Dwi eisiau sicrhau fod y cwmnïau yn canolbwyntio ar yr ochr greadigol yn hytrach na defnyddio amser ac adnoddau prin wrth baratoi cais, creu mwy o sefydlogrwydd a rhyddhau comisiynwyr o brosesau hir a chymhleth.

Er mwyn rhoi cyfle i ni newid y broses a chreu trefn newydd sy'n fwy hyblyg ac yn llai biwrocrataidd dwi'n bwriadu rhoi "Moratoriwm Cyffredinol" ar dendrau o gynyrchiadau sydd i'w darlledu yn 2012.

Be ma' hyn yn golygu?

Os yw'r Cyfarwyddwr Cynnwys a'r comisiynydd yn hapus yn greadigol gyda chyfresi sydd eisoes ar y sgrin yn 2012 (a lle mae'r cytundeb yn dod i ben yn 2012) ac yn hapus ein bod yn cael gwerth ein harian yna byddwn yn ymestyn y cytundebau presennol yn hytrach na'i rhoi allan i dendr. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal asesiad pellach o'r sefyllfa. Dwi yn gobeithio fod hyn yn dangos ein bod yn hyblyg ac yn awyddus i gyd- weithio i greu mwy o sefydlogrwydd mewn cyfnod anodd o wasgedd ariannol.

O ystyried hyn, hoffwn ofyn i TAC heddiw i enwebu 3/4 person i ymuno â ni i drafod symleiddio'r broses bresennol a thrafod system newydd ar gyfer y dyfodol. Byddai'n dda enwebu unigolion sydd yn brofiadol ar dendrau ac sydd wedi cael profiad trylwyr o'r drefn bresennol. Mae'r "moratoriwm" yn creu amser i ni ail-ystyried popeth a rhoi cyfle i ni gydweithio i greu system newydd mewn ysbryd o bartneriaeth agored.

Gyda'r newid yn y drefn gomisiynu….yr amserlen gomisiynu, y Moratoriwm ar dendrau yn 2012….. a'r awydd i gydweithio a symleiddio…dwi'n mawr obeithio, yn y pendraw, y gallwn roi llawer mwy o bwyslais ar drafodaeth greadigol.

**Digidol**

Mae remit S4C o dan adran 204 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ein galluogi i ddarparu "Gwasanaeth Teledu" drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn Mae C4 o dan Ddeddf Economi Ddigidol 2010 a'r BBC o dan ei siarter yn gallu darparu ystod ehangach o gynnwys digidol nag S4C. Mae hyn yn cyfyngu be allwn ni neud ym maes digidol. Yr ydym wedi cychwyn trafodaethau gyda'r Gweinidog, Ed Vaizey a swyddogion y DCMS i drio ehangu remit S4C. Mae'r sgyrsiau cychwynnol wedi bod yn adeiladol ac rydym yn ffyddiog o ddod i gytundeb fydd yn ein galluogi i weithio yn fwy ym maes aml-gyfryngol dros y misoedd nesa.

Yn yr oes ddigidol mae'n bwysig bod y cyfryngau newydd yn cael lle canolog yn ein gwasanaeth ond nid ar draul cyfryngau a chynulleidfaoedd traddodiadol. Mae'r fforwm cyfryngau newydd a sefydlwyd gan yr Awdurdod wedi gwneud sawl awgrym gan gynnwys:

- Ail-ddiffinio pwrpas craidd y Sianel o ddarparu 'gwasanaethau teledu' i gynnwys 'ar draws ystod o gyfryngau gwahanol.'

- Fod strategaethau comisiynu digidol a masnachol manwl yn cael eu llunio fel rhan o'r gwaith datblygu ar y gwasanaeth newydd.

- Buddsoddi mewn cynnwys digidol drwy Gronfa Ddigidol S4C.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi ychwanegu at hyn. Ochr yn ochr gydag unrhyw gamau pellach o du'r awdurdod, sefydlwyd grŵp mewnol o dan gadeiryddiaeth Elin Morris i bori ar yr holl bapurau, yr awgrymiadau a'r adborth. Bwriad y grŵp fydd sefydlu cynllun gwaith ac amserlen ar gyfer y 3 blynedd nesa. Byddwn yn gwahodd 1 neu 2 aelod o'r tu allan i S4C i fod yn rhan o'r grŵp yma ac i roi mewnbwn i'r cynlluniau.

Ochr yn ochr â hyn mae £1mn y flwyddyn wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn cynnyrch digidol. Yr ydym yn trafod "parameters" y gronfa yma ar hyn o bryd ac yn awyddus i edrych am bartneriaid arian ac adnoddau ychwanegol o sefydliadau eraill i ychwanegu at yr ymrwymiad a chynyddu gwerth y gwariant.

Dwi wedi tanlinellu sawl gwaith yn ystod yr wythnosau diwetha bod egwyddorion Arglwydd Reith ar gyfer darlledu cyhoeddus a sefydlwyd ym 1927 yn dal i ddal dŵr heddi ond bod ishe ychwanegu ychydig o Fartini- hysbyseb Martini a ymddangosodd 30 bl yn ôl a darparu cynnwys "Any Time Any place Anywhere"

**BBC**

Fel y dywedais yn gynharach, dwi'n croesawu'r bartneriaeth newydd gyda'r BBC ac yn edrych ymlaen at gyd-weithio gydag un o frandiau mwya'r byd ac un o wasanaethau darlledu pwysica'r byd. Roeddwn yn awyddus i achub ar y cyfle yn yr araith yma i roi diweddariad o'n sgyrsiau.

Mae yna bedair ffrwd o waith sy'n cael eu trafod rhyngom a'r BBC ar hyn o bryd:

1. <u>Cytundeb Gweithredol</u>
   Mae trafodaethau rhwng S4C ag Ymddiriedolaeth y BBC yn Llundain a Chaerdydd wedi cychwyn ar y Cytundeb Gweithredol fydd rhyngom gan anelu at gytundeb drafft erbyn diwedd Gorffennaf eleni.

2. <u>Bwrdd Partneriaeth Strategol</u>
   Mae 'na ddogfen wedi ei pharatoi gan S4C ynglŷn â'r Bwrdd Partneriaeth Strategol gan amlinellu meysydd penodol i'w trafod lle y gallwn ystyried cydweithio a rhannu adnoddau ar draws nifer helaeth o feysydd. Mae hwn wedi ei ddanfon at y BBC ac mae'r trafodaethau cynta cychwynnol i drafod amserlen a chadarnhau'r ffrydiau gwaith wedi digwydd. Mae'n gynnar iawn yn y broses ond mae'r sgyrsiau hyd yn hyn wedi bod yn bositif ac adeiladol

3. <u>Partneriaeth Strategol</u> (sef y 10 awr yr wythnos)
   Mae'r BBC wedi mynegi eu dyhead i ymestyn y cytundeb Partneriaeth Strategol o Fawrth 2013 i 2017. Yr ydym ar fin cychwyn trafodaethau yn y maes yma.

4. <u>Bwrdd Adolygu Newyddion</u>
   Mae Cyfarfodydd rheolaidd o'r Bwrdd Adolygu Newyddion yn digwydd gan ganolbwyntio ar elfennau golygyddol y gwasanaeth Newyddion a Materion Cyfoes a Gwleidyddol.

Yn ogystal â'r pedair brif ffrwd o waith rydym eisoes wedi cytuno gyda Rheolwr BBC Cymru, Rhodri Talfan Davies, i gymryd rhan mewn astudiaeth dichonoldeb -" feasibility study" - ar gyd-leoli ein swyddfeydd. Mae'r gwaith wedi cychwyn a gobeithiwn ddod i gasgliad yn gynnar yn yr Hydref.

D'yw symud o Lanishen ddim yn gwneud lot o sens yn y tymor byr ond dylwn edrych ar bob opsiwn ar gyfer y tymor hir.

Mae ystod eang o bynciau felly yn cael eu trafod rhyngom a'r BBC yr Ymddiriedolaeth yn ganolog â'r BBC yn lleol gyda 2 amcan:

1. Cydweithio ac arbed arian lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny.

2. Sicrhau parhad a'r defnydd gorau o'r arian sydd wedi'i glustnodi i ni o dan y drwydded.

**Mesur Perfformiad**

Mae Mesuriadau Perfformiad yn bwnc sylweddol yn ein sgyrsiau mewnol.

Mae'n bwnc pwysig er mwyn sicrhau bod llwyddiant y gwasanaeth yn cael ei fesur mewn ffordd briodol a deallus. Mae angen hyn er mwyn i Awdurdod S4C wneud ei waith yn iawn, ac er mwyn rhoi sicrwydd i'r holl ran-ddeiliaid fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Mi fydd angen hefyd i ni gael Mesuriadau Perfformiad sy'n caniatáu i ni adrodd i Ymddiriedolaeth y BBC am wariant arian y drwydded mewn ffordd briodol. Yn y cyfamser rydym yn trafod beth yw'r prif fesuriadau ar gyfer y dyfodol i ni yn fewnol.

Yn sicr ar gyfer gwasanaeth darlledu cyhoeddus yn yr iaith Gymraeg ac mewn byd aml-gyfryngol mae mesuriad o wylwyr ar gyfartaledd yn ystod yr oriau brig yn rhy syml i fesur llwyddiant, ac mae ystod ehangach o fesuriadau sy'n cyfleu "reach", impact economaidd a chymdeithasol ar y cyd, yn fesur llawer mwy cynhwysfawr. Yr ydym yn gweithio tuag at restr i'w chyflwyno i'r awdurdod yn y deufis nesa. Dwi'n gwybod bod Carys Evans, ein Pennaeth Ymchwil, wedi cysylltu yn anffurfiol gyda rhai ohonoch er mwyn cael mewnbwn. A tra ein bod yn sôn am fesuriadau perfformio hoffwn dreulio ychydig funudau ar "Ymchwil".

S4/C

**Rhannu Ymchwil**

Ymchwil trylwyr a marchnata creadigol yw sylfaen unrhyw wasanaeth cynnwys.

Mae ymchwil yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwybod beth yw anghenion y gynulleidfa cyn comisiynu a chasglu ymateb wedi darlledu. Mae'n gynhorthwy i'r Cyfarwyddwr Cynnwys a'i dîm/thîm i wneud penderfyniadau comisiynu ac amserlenni.

Er hynny dwi o'r farn mae rhoi arweiniad neu gynnig fframwaith mae ffigurau gwylio, ac mai nad drwy ffigurau gwylio yn unig y dylid asesu gwerth sianel gyhoeddus fel S4C. Mae cyfres Cyw yn cael ymateb gwych gan bawb. ...Mae Cyw yn enghraifft dda o ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus - rhywbeth sy'n hanfodol a gwerthfawr iawn ond sy'n denu cynulleidfa gymharol isel. A ddylwn ddiystyru Cyw oherwydd nad ydi yn cyfrannu at ffigurau oriau brig...na byddai'n boncyrs i wneud hynny...mae'n hanfodol.... a dyma paham na ddylai unrhyw un ganoli ar un mesur perfformiad ond ar ystod o fesuriadau!

A thrwy ein hymchwil, beth mae'r gynulleidfa yn dweud wrthym ni ar hyn o bryd? Wel, mae'n cyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru hyd yma eleni i fyny 8,000 - o 523,000 yn yr un cyfnod llynedd i 531,000 eleni.

O ran gwerthfawrogiad mae canlyniadau cyson ein hymchwil yn dangos bod y gwylwyr yn ystyried ein bod yn adlewyrchu'r 'lleol' yn dda iawn ond bod angen mwy o raglenni gafaelgar mae pobl yn 'siarad amdanynt.' Mae angen gwthio'r ffiniau ychydig yn fwy a gwneud mwy ym meysydd hiwmor ac adloniant er mwyn gwasanaethu'r grŵp oedran 25-45.

Mae ffactorau fel gwerthfawrogiad, effaith ar ddatblygiad iaith a gwerth cymdeithasol y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd i gyd yn bwysig. Maent yn ymwneud ag ymrwymiad ac ymlyniad, a chyfrannu at gadw'r iaith yn fyw, efallai. Maent yn ffactorau sydd ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau gwylio. Gyda llaw, mae gennym brosiect ar waith gyda KESS/Prifysgol Bangor i asesu gwerth a chyfraniad Cyw yn y maes datblygu iaith.

Yn ychwanegol i enghraifft Cyw, mae'r holl gyfathrebu sydd rhwng cynhyrchwyr annibynnol yn gyffredinol a'r gynulleidfa ar eu rhaglenni cylchgrawn yn achos Tinopolis, er enghraifft, yn profi elfen arall o hyn – fod sawl ffordd o fesur "ymwneud" efo sianel.... dydy ffigurau gwylio a ffigurau galwadau ffôn wrth gystadleuwyr ddim o reidrwydd yn cyfateb. Dros fis Rhagfyr y llynedd gwnaethpwyd 54,000 o geisiadau yng nghystadlaethau 'Cracyr Nadolig' Wedi 3 ac Wedi 7.

Mae sawl un wedi mynegi'r awydd i gael mwy o wybodaeth am y maes yma – maes ymchwil a rhannu'r wybodaeth rhyngom. Dwi'n fwy na hapus i wneud hyn. Dwi wedi gofyn i Carys Evans, Pennaeth ein hadran ymchwil, ystyried be allwn rannu a thrafod gyda chynhyrchwyr a pha ymchwil fyddai o ddefnydd i chi.

Yn dilyn sgyrsiau cychwynnol rydym yn ystyried:

- Rhannu elfennau o Ffigurau BARB gyda phawb - pawb i weld ffigurau pawb arall... er mwyn ein bod fel sector yn dysgu o lwyddiant neu aflwyddiant rhaglenni cwmnïau eraill. Bydd angen peidio bod yn or-sensitif am newydd da neu ddrwg...dim ond ein bod yn gallu dysgu o feirniadaeth a phrofiad.

- Efallai gallai TAC danysgrifio gyda BARB hefyd ar ran eu haelodau oherwydd nad yw BARB yn fodlon i ni roi'r holl ffigyrau dros nos ar y safle we cynhyrchu. 'Falle bod hyn yn ystyriaeth?

- Rhannu mwy o wybodaeth yn gyffredinol, o ran ymchwil ansoddol o bob math.

- Cynnal sesiynau ymchwil gyda chynhyrchwyr unigol.

Ac mae rhai pethe penodol arall allwn ni ystyried?:

1. Yn lle rhoi ffigyrau dros nos allan yn ddyddiol, rhoi ffigyrau cyfunol 'consolidated' hefyd – gan fod y cynnydd yn gallu bod yn fawr.

2. Mae dangos ein cyfran yn erbyn sianeli eraill yn gallu bod yn fuddiol iawn.

3. Mesur "cyfansawdd" ar draws ar- lein & teledu (Fel Live Plus 7).

Ta beth yn union da ni yn penderfynu rhannu, dwi 'n awyddus iawn i wneud ac i gael adborth ar bopeth. Dwi wedi gofyn i Carys i gychwyn y broses yma a chael mewnbwn i hyn oll.

Ar ddechrau'r araith yma fe wnes i sôn mai anghenion ein cynulleidfa yw'r ffactor bwysicaf yn ein holl weithgareddau ac mae hyn wedi ysgogi trafodaeth rhyngom a Leighton Andrews, y Gweinidog Dros Addysg a Sgiliau, a'r BBC ynglŷn â'r posibilrwydd o gomisiynu ymchwil ar y cyd. Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r ymchwil yn digwydd ar hyn o bryd a'r gobaith yw symud ymlaen ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a'r BBC heb oedi. Bydd y cylch gorchwyl yn cynnwys:

i. Holi beth yw gofynion ac anghenion siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol, yn eu cymunedau, yn eu horiau hamdden, mewn perthynas ag addysg Gymraeg, ar deledu, drwy gyfrwng y we, papurau newydd, y theatr ac adloniant yn gyffredinol?
ii. Ydi'r gofynion yn debyg o fod yn wahanol i'r gorffennol?
iii. Oes newid mewn ymddygiad tuag at yr iaith yn debygol o ddigwydd i'r dyfodol?
iv. Beth am y siaradwyr llai rhugl a'r dysgwyr ? Ydi'r gofynion yr un fath?
v. Beth fydd yr ymchwil yn ddweud wrthym am ein cynulleidfa a'r arlwy sy'n cael ei ddarparu?

**Cyllideb y dyfodol**

Dwi wedi trafod ystod eang o weithgareddau S4C yn fy araith.
Arian, y gyllideb, wrth gwrs, sy'n cynnal y cyfan.

Mae gennym sicrwydd 5 mlynedd o'r arian fydd yn dod o ffi'r drwydded - mwyafrif helaeth ein cyllideb - ond mae 'na £7m sydd wedi gwarantu tan 2015 yn unig. Cyfraniad y DCMS yw hwn a rhaid inni ystyried be sy'n mynd i ddigwydd i'r swm yma yn 2016 a 2017. Fydd y DCMS yn dal i dalu'r swm yma? Maen nhw'n gwestiynau mae'n rhaid inni ddal i'w gofyn a pheidio collu golwg ohonynt. Byddai colli'r £7m yn peryglu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Dwi wedi gwneud lot o awgrymiadau yn yr araith am…symleiddio….cyd-weithio i edrych am atebion ar y cyd…..Mae hyn yn adlewyrchiad o'm hawydd i'n bersonol i weithio'n agosach gyda chi. I ni gyd yn yr un cwch ac mae cryfder drwy undod ac at hynny y dylwn anelu - dyna fy nymuniad i.

**Archif**

Cyn i mi gloi gaf i ofyn am eich help fel aelodau TAC mewn perthynas â'n harchif?

Yn y 30 mlynedd ers sefydlu S4C, mae yna gyfoeth o ddeunydd wedi ei greu sy wedi'i ddiogelu mewn archif ar hyn o bryd. Dwi'n awyddus iawn fod pobl yn cael y cyfle i fwynhau rhaglenni o'r archif yma unwaith eto. Un o argymhellion y Fforwm Cyfryngau Newydd oedd ein bod yn dosbarthu deunydd o archif S4C ar-lein. Dwi am ofyn i chi fel cwmnïau cynhyrchu i'n helpu ni i wireddu hyn mewn dwy ffordd:

1. Drwy gydweithio gyda S4C, fel deiliaid yr hawlfraint ers 2003, er mwyn gwireddu'r argymhelliad yma a galluogi i'r deunydd gael ei ryddhau ar y wê; a

2. Drwy gynnig eich awgrymiadau, fel cynhyrchwyr y deunydd yma, am ba raglenni yn eich barn chi yr hoffai pobl eu gweld eto.

Dwi hefyd yn awyddus i wireddu argymhelliad y Fforwm i gynyddu'r defnydd o ddeunydd archif S4C mewn ysgolion a cholegau at bwrpasau addysgiadol.

Trwy bartneru gyda sefydliadau, cyrff a phrifysgolion ym myd addysg ar gyfer bob oed mi allwn ni wneud y defnydd gorau o'r adnodd cyfoethog yma.

Unwaith eto, hoffwn drafod gyda chi sut i gyflawni hyn yn achos deunydd archif sydd allan o gyfnod y drwydded. Byddai sefydlu pwyllgor ar y cyd i drafod hyn gyda TAC ac awgrymu ffordd ymlaen yn ddefnyddiol iawn.

I'r perwyl yma fydd Elin Morris mewn cysylltiad â TAC i drefnu sgyrsiau cychwynnol.

**Diweddglo**

Os mai'r gynulleidfa yw "calon" y gwasanaeth....a gwireddu ei hanghenion yn gosod sylfaen da i lwyddiant, cynhyrchwyr ein rhaglenni - yw "asgwrn cefn" y Sianel.

Heb gynhyrchwyr rhaglenni yn cynhyrchu cynnwys cost effeithiol o'r ansawdd uchaf, bydde na ddim rhaglenni i'w gwylio a dim gwasanaeth i'w gynnig. Mae'r berthynas rhyngom yn bwysicach heddi nag erioed, does 'na ddim rhesymeg pam na ddylwn gydweithio'n agos mewn partneriaeth greadigol; cyfathrebu'n agored gyda'n gilydd a symud ymlaen ar y cyd gyda hyder, uchelgais a beiddgarwch.

Fe fydda i yn gwerthfawrogi eich cyfraniad a'ch mewnbwn bob amser. Byddwch yn pro-actif felly gyda'ch syniadau. Does gen i mor holl atebion ond deng mlynedd ar hugain - 30 mlynedd - ar ôl y noson agoriadol fythgofiadwy yna yng Nghlos Soffia rwy'n hyderus bod yr hyn rwy wedi amlinellu yma heddiw yn cynrychioli'r ffordd ymlaen i S4C i ddyfodol fydd, a dweud y lleia', yn gyffrous, ac yn wefreiddiol i fod yn rhan ohono.

Diolch yn fawr.